HORIZON NUCLEAR POWER

A UK company of E.ON and RWE

Horizon Nuclear Power
5210 Valiant Court
Gloucester Business Park
Delta Way, Gloucester, GL3 4FE
T +44 (0) 845 300 6816

ENERGY WORKING FOR BRITAIN

NEWS RELEASE

I'W RYDDHAU AR UNWAITH
Dydd Iau 27 Hydref 2011

Horizon yn cwblhau cytundeb tir ar gyfer gorsaf bŵer newydd Wylfa

Heddiw, cwblhaodd Horizon Nuclear Power bryniant tir sydd wedi'i glustnodi ar gyfer gorsaf bŵer niwclear newydd yn Wylfa ar Ynys Môn.

Mae hyn yn golygu bod y tir sydd o fewn ffin y Llywodraeth ar gyfer adeiladau niwclear parhaol yn cael ei drosglwyddo o'r Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear a chwmni ynni EdF i berchnogaeth Horizon.

Sicrhaodd Horizon ei hawl i'r tir hwn drwy broses ocsiwn yn 2009 ac roedd y pryniant yn amodol ar nifer o faterion sydd bellach wedi'u datrys.

Meddai Alan Raymant, Prif Swyddog Gweithredol Horizon:

"Mae hyn yn newyddion gwych ac yn garreg filltir arall yn natblygiad Horizon o niwclear newydd yn Wylfa. Dynododd Lywodraeth y DU Ddatganiad Polisi Cenedlaethol ar bŵer niwclear yn gynharach eleni ac mae hyn wedi caniatáu i ni allu cwblhau'r cytundeb.

"Mae cael yr hawl i'r tir hefyd yn un o'r camau allweddol i'n galluogi i ddatblygu gorsaf bŵer newydd ar safle Wylfa."

Mae cwblhau hefyd yn golygu y gall gwaith gael ei wneud ar ymddangosiad rhai o'r adeiladau ar y safle.

Meddai Alan Smith, Pennaeth Datblygu Safle cwmni Horizon: "Byddwn nawr yn creu rhaglen i fynd i'r afael â'r adeiladau gwag sydd â ffenestri wedi'u bordio yr ydym yn ymwybodol bod gan rai bobl lleol bryderon yn eu cylch.

"Rhaid i ni sicrhau ein bod yn rheoli materion yn ymwneud â bywyd gwyllt yn briodol, er enghraifft ail-leoli ystlumod sy'n clwydo, ond gallwn ddisgwyl dymchwel rhai o'r adeiladau yn y dyfodol agos.

"Byddwn yn sicrhau bod pobl leol yn cael eu hysbysu ymlaen llaw am unrhyw waith."

Mae Horizon yn cyflwyno cynlluniau i ddatblygu hyd at 3.3 GW o gapasiti niwclear newydd yn Wylfa, gyda'r uned gyntaf yn dod ar-lein tua 2020.

Yr wythnos hon, arwyddodd y cwmni Gytundeb Perfformiad Cynullunio gyda Chyngor Sir Ynys Môn, sy'n galluogi'r cyngor i sicrhau'r adnoddau ychwanegol fydd eu hangen i asesu'r cynnig datblygu, yn annibynnol o'i rôl o benderfynu ar unrhyw gais.

-DIWEDD-

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
Tris Denton – 07585 966 747 neu tristram.denton@horizonnuclearpower.com
Leon Flexman – 07989 493 320 neu leon.flexman@horizonnuclearpower.com
Claire Loveday – 07717 300 379 neu Claire.loveday@horizonnuclearpower.com